# STEVE SAMUEL
# CLWB PÊL-DROED FFYNNON TAF

Mae Steve yn ofalwr maes a cheidwad y cit ar gyfer Clwb Pêl-droed Ffynnon Taf. Mae wedi bod yn ofalwr maes ers blynyddoedd, gan weithio ar y cae a chyflawni gwaith cynnal a chadw stadiwm, gan wneud hynny i safon uchel iawn ac wedi derbyn canmoliaeth barhaus gan gefnogwyr a chlybiau oedd yn ymweld. Mae Steve yn y stadiwm bob dydd ac yn gweithio'n ddiflino i'w baratoi ar gyfer gemau ac ymwelwyr. Yntau'n gofalu am y cit, mae'n mynychu pob gêm, boed yn rhai gartref neu oddi cartref gan sicrhau fod gan y chwaraewyr bopeth maen nhw ei angen bob tro.

Mae Steve yn gymorth allweddol i'r clwb. Mae'n cynorthwyo'r chwaraewyr ac yn eithriadol o gyfeillgar a chroesawgar â phawb mae'n cwrdd. Mae Steve yn adnabyddus ac mae gan bawb yn y gymuned leol a'r gymuned bêl-droed Cymreig ehangach feddwl mawr ohono.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## MAI 2023